Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)**
**Education and Family Support Directorate – Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU/LH
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: 20 Rhagfyr 2023

Annwyl riant/gofalwr

**Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) a negeseuon e-bost sy'n rhoi balans cyfrifon prydau ysgol di-arian**

Mae'r drefn ar gyfer cyflwyno UPFSM i ddisgyblion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr isod:

- Ionawr 2024 – disgyblion meithrin llawn amser;
- Ebrill 2024 – disgyblion blwyddyn 4; a
- Medi 2024 – disgyblion blwyddyn 5 a 6.

Felly, o ddechrau blwyddyn ysgol 2024-25 ymlaen, bydd holl ddisgyblion ein hysgolion cynradd yn cael prydau ysgol am ddim.

Os yw'ch plentyn, ar hyn o bryd, yn talu am brydau ysgol sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol, byddwch yn gwybod eisoes fod yr e-bost wythnosol sy'n dangos balans y cyfrif wedi'i ohirio dros dro oherwydd problemau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud â phroblem a gododd wrth uwchraddio'r system er mwyn medru rhoi'r UPFSM ar waith. Mae'n effeithio ar ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae'r awdurdod lleol yn ymddiheuro am unrhyw anhwylustod ac yn ddiolchgar i chi am eich amynedd a'ch dealltwriaeth tra byddwn yn ystyried rhoi trefniadau eraill ar waith.

Er y gall rhieni/gofalwyr ofyn i'r ysgol am falans y cyfrif, mae'r awdurdod lleol yn deall bod y ceisiadau hyn yn rhoi cryn dipyn o bwysau ar staff gweinyddol yr ysgol. Byddai'r awdurdod lleol felly'n ddiolchgar pe gallai disgyblion, rhieni a gofalwyr, am y tro, yn gwneud llai o geisiadau am fanylion eu balans.

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**
**Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun**
**Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service**
**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg**
**We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh**

Yn y cyfamser, a nes byddwn yn gallu cyflwyno system arall i roi gwybod i chi am falans eich cyfrif, rwy’n ddiolchgar i chi am eich amynedd a’ch dealltwriaeth yn y cyswllt hwn.

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr